

**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU'R AMGYLCHEDD A'R ECONOMI**  
**21 MEDI 2020**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a'r Economi Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd o bell ddydd Llun, 21 Medi 2020.

**YN BRESENNOL: Y Cyngorydd Rosetta Dolphin (Cadeirydd)**

Y Cyngorwyr: Sean Bibby, Chris Dolphin, David Evans, Patrick Heesom, Cindy Hinds, Dennis Hutchinson, Joe Johnson, Vicky Perfect, Paul Shotton ac Owen Thomas

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cyngorydd George Hardcastle

**CYFRANWYR:** Y Cyngorydd Carolyn Thomas, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Stryd a Chefn Gwlad; Y Cyngorydd Chris Bithell, Aelod Cabinet Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd; Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi); Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant); Prif Weithredwr a Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Arweinydd Tîm – Gwasanaethau Democrataidd, Hwyluswyr Trosolwg a Chraffu a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**1. PENODI CADEIRYDD**

Dyweddodd yr Hwylusydd ei fod wedi ei gadarnhau yng Nghyfarfod Blynnyddol y Cyngor Sir y dylai Cadeirydd y Pwyllgor ddod o'r Grŵp Cynghrair Annibynnol. Cafodd y Pwyllgor wybod fod y Cyngorydd Rosetta Dolphin wedi cael ei phenodi i'r rôl ar gyfer blwyddyn y cyngor.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi penodiad y Cyngorydd Rosetta Dolphin fel Cadeirydd y Pwyllgor.

**2. PENODI IS-GADEIRYDD**

Enwebodd y Cyngorydd Joe Johnson y Cyngorydd David Evans yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor ac eiliwyd hyn gan y Cyngorydd Paul Shotton. Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill. O'i roi i bleidlais, cymeradwywyd hyn.

**PENDERFYNWYD:**

Penodi'r Cyngorydd David Evans yn Is-gadeirydd y Pwyllgor.

**3. DATGAN CYSYLLTIAD**

Dim.

**4. COFNODION**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 13 Gorffennaf 2020, fel y cawsant eu cynnig a'u heilio gan y Cyngorwyr Sean Bibby a Chris Dolphin.

## **PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

### **5. BRIFFIO YNGHYLCH SEFYLLFA FRYS (LLAFAR)**

Fe eglurodd y Prif Weithredwr fod y sefyllfa bresennol yn un ansefydlog. Byddai o a'i Uwch Swyddogion yn sicrhau bod Aelodau yn cael diweddariad byr ar lafar ar ddechrau cyfarfodydd. Dywedodd hefyd y gallai fod yn angenrheidiol ailgyflwyno'r briff ar y sefyllfa, a roddwyd i Aelodau yn ystod chwe mis cyntaf yr argyfwng.

## **PENDERFYNWYD:**

Nodwyd.

### **6. CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad ynglŷn â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor yn cynghori fod pob un o'r Pwyllgorau wedi eu newid o ganlyniad i'r adolygiad. Mae'r Gwasanaethau Adfywio wedi eu trosglwyddo i'r Pwyllgor hwn o'r hen Bwyllgor Cymuned a Menter:-

- Cymunedau'n Gyntaf
- Datblygu Economaidd a Thwristiaeth
- Menter
- Partneriaeth Adfywio
- Cynllun Datblygu Gwledig
- Croeso Cymru

Symudwyd yr argymhellion yn yr adroddiad gan y Cynghorydd Paul Shotton ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Sean Bibby.

## **PENDERFYNWYD:**

Bod y cylch gorchwyl, fel y cytunwyd arno gan y Cyngor ac sydd yn atodiad i'r adroddiad, yn cael ei nodi.

### **7. STRATEGAETH ADFERIAD (PORTFFOLIO CYNLLUNIO, AMGYLCHEDD AC ECONOMI)**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad i roi trosolwg i'r Pwyllgor o gynllunio adferiad ar gyfer ei feysydd portffolio yn rhan o'r strategaeth er mwyn ailgychwyn y broses lywodraethu ddemocrataidd llawn. Byddai adborth o bob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu am y cofrestrau risg, y blaenoriaethau adferiad a thargedau dangosydd perfformiad diwygiedig ar gyfer eu meysydd yn cael eu hadrodd i'r Cabinet cyn cyhoeddi Strategaeth Adferiad lawn.

Cafwyd cyflwyniad oedd yn dangos y trosglwyddiad o ymateb i adferiad am y pwyntiau canlynol:

- Argymhellion gan y Cabinet

- Amcanion y Strategaeth Adferiad
- Amcanion yr Ymateb
- Enghreifftiau o gyflawniadau lleol wrth Ymateb
- Adferiad – trefniadau trosglwyddo
- Strwythurau Adferiad Rhanbarthol a Lleol
- Amcanion Adferiad - Gwasanaethau
- Gweithgareddau Adferiad
- Adferiad Cymunedol
- Cynllun a Pherfformiad y Cyngor
- Llywodraethu Adferiad yn Ddemocrataidd

Aeth y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) drwy'r rhan o'r adroddiad sy'n ymdrin ag Adferiad Cymunedol, ac roedd wedi ei rannu yn ddau is-grŵp Economi a Phobl Ddiamddiffyn a Thlodi. Rhoddodd gefndir pellach ynglŷn â'r grŵp Adferiad Cymunedol Is-ranbarthol, sydd yn fenter Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus ar y cyd rhwng Sir y Fflint a Wrecsam. Roedd pedair thema adferiad wedi eu nodi er mwyn gweithredu arnynt a dywedodd fod Arweiniad ar y Cyd o ran ffrwd waith yr Amgylchedd a Lleihau Carbon. Rhoddodd ddwy enghraifft o'r hyn yr oedden nhw'n ei gynnig er mwyn helpu'r Amgylchedd; Llefydd Gwyrdd er mwyn gwella ansawdd, defnydd o ddarpariaeth, hygyrchedd er mwyn hyrwyddo llefydd gwyrdd, ac yn ail Lleihau Carbon er mwyn mynd i'r afael â heriau newid hinsawdd ar lefel leol.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at Gynllun y Cyngor a gaiff ei ddiweddarau'n flynyddol ond oherwydd y tarfu a fu yn yr argyfwng, a gychwynnodd ganol Mawrth, ni chafodd ei gyflwyno ym mis Ebrill. Eglurodd fod y Cabinet wedi tynnu ohono ac wedi diweddarau pethau allweddol oedd yn hanfodol i adferiad rhwng rŵan a'r gwanwyn nesaf, pan fyddai'r Cyngor a'i Wasanaethau, gobeithio, yn gallu cael eu hadsefydlu oherwydd y tarfu mawr, a chyflwynodd Gynllun drafft y Cyngor wedi ei atodi i'r adroddiad.

Hefyd ynghlwm roedd fersiwn wedi ei diweddarau o'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn ymwneud â'r ddau bortffolio yn dangos ble roedd rhaid gwneud newidiadau i uchelgais a thargedu oherwydd y tarfu gan yr argyfwng neu oherwydd bod peth o'r data bellach yn amherthnasol.

Eglurodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) beth oedd ffurf yr adroddiad oedd yn seiliedig ar Adfer Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi yn unig, ynghyd â 4 atodiad ynghlwm. Cyfeiriodd at yr 14 amcan adferiad a rhestrwyd, oedd wedi eu gosod ym mis Gorffennaf 2020 a'u bod eisoes wedi mynd i'r afael â rhai ohonynt.

Adroddodd fod mwyafswm y portffolio heb ei ddynodi'n wasanaethau hanfodol, er eu bod yn dal i weithio, ac eithrio Safonau Masnach, Trwyddedu, Swyddogaethau Iechyd yr Amgylchedd a Swyddogaethau Diogelwch Bwyd yn ogystal ag Iechyd a Diogelwch, oedd yn cynorthwyo gyda sefydlu model Cyfarpar Diogelu Personol a phob un ohonynt yn gorfod parhau.

Nododd risgiau:-

- 20 risg agored dros Reoli Portffolio, Gweithlu, Rheoliadau Allanol, TGCh a Systemau; Gwasanaeth Portffolio a Pherfformiad.

- Risgiau Adferiad penodol wedi eu dangos fel \*
- Nifer y risgiau coch wedi lleihau o 20% ers mis Mehefin
- 40% o risgiau bellach yn gostwng, o'i gymharu â 25% ym mis Mehefin

a chanolbwyntio ar 3 ohonynt:-

Gweithlu - PE07 - Roedd yr effaith ar gyflwyno gwasanaeth oherwydd gwydnwch staff a chynllunio ar gyfer olyniaeth yn gostwng oherwydd adleoli staff, recriwtio allanol ac ymgysylltu ag ymgynghorwyr gan egluro fod mis Medi yn fis adfer yn y maes hwnnw.

Rheoliadau Allanol - PE13 - Enghraifft arall o ostwng risg oedd bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn y cytundeb darparu diwygiedig ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol.

PE-14 - Cynt roedd yn gostwng ond bellach mae wedi sefydlogi ar oren oherwydd recriwtio dau Swyddog lechyd yr Amgylchedd dros dro i gynorthwyo gyda'r rhaglenni archwilio a gynlluniwyd a'r rhai adweithiol, gan orfodi cyfyngiadau lleol a chenedlaethol, gweithgarwch rheoleiddio a gwaith Profi, Orlhain a Diogelu yn ymwneud â Covid 19 hefyd.

Wrth ymateb i gwestiwn a godwyd gan y Cynghorydd Owen Thomas, Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) adroddwyd eu bod mewn gwell safle na blwyddyn yn ôl er mwyn gwybod beth oedd effaith Clefyd (Chalara) Coed Ynn. Yn ystod y cyfnod clo, gan fod y ffyrdd yn dawel, roeddent wedi llwyddo i fynd allan i wneud gwaith arolwg ac mae'r adroddiadau cyntaf yn dangos nad oedd pethau wedi gwaethygu mor gyflym ac yr oeddent wedi feddwl i ddechrau, ond roedd y gwaith arolwg cychwynnol yn dangos ardaloedd helaeth o Glefyd (Chalara) Coed Ynn yn tyfu'n agos at rai priffyrdd e.e. A5104 yn arwain i Gorwen gyda Choed Ynn sylweddol yn dangos arwyddion o'r clefyd. Roedd cymhlethdod gan mai dim ond 5% oedd o fewn perchnogaeth tir Sir a byddai'n rhaid dod o hyd i'r perchnogion tir er mwyn rhoi gwybod iddynt fod coed ynn heintus ar eu tir. Gan fod y gwaith arolwg wedi ei wneud erbyn hyn, mae ganddynt well syniad o lawer am leoliad y coed, a'u cyflwr fel sail i gynllunio yn y dyfodol.

Roedd y Cynghorydd Chris Dolphin eisiau eglurder ynglŷn â chyfnodau clo yn y dyfodol gan holi a fyddai Swyddogion yn mynd allan ar eu pen eu hunain i weld safleoedd, a pheidio â siarad â phobl o angenrheidrwydd. Eglurodd y Prif Swyddog (Cynllunio, Yr Amgylchedd a'r Economi), cyn gwneud unrhyw ymweliad safle y byddai angen i Swyddogion gynnal asesiad risg, sy'n parhau i fod yn ofynnol. Dylid gofyn yn gyntaf a ydyw ymweliad yn hanfodol neu a oes modd casglu'r wybodaeth mewn rhyw ffordd arall. Os mai 'na' yw'r ateb, yna ni fyddai'r Swyddog yn cynnal ymweliad safle. Drwy gydol y cyfnod clo roedd dau aelod o staff o fewn y Gwasanaeth Rheoli Datblygiad wedi eu dynodi fel staff hanfodol a phe codai achosion gwirioneddol bwysig, yna cynhelid ymweliadau safle yn ddiogel ac yna dilyn hynny gyda chymau gorfodi mewn sawl achos. Drwy gydol y cyfnod clo, dau chwarter cyntaf y flwyddyn hon, rhoddodd Sir y Fflint fwy o hysbysiadau am gamau gorfodi na'r llynedd oherwydd ymweliadau brysbennu. Mewn un achos penodol comisiynwyd ffilmio achos gyda drôn, ond ni fyddai hynny wedi digwydd o dan amgylchiadau arferol. Ychwanegodd hefyd fod ymweliadau Rheoli adeiladu wedi digwydd drwy fideo gynadledda.

Cynigwyd yr argymhellion yn yr adroddiad gan y Cynghorydd Chris Dolphin a'u heilio gan y Cynghorydd Paul Shotton.

**PENDERFYNWYD:**

- (a) Cytuno ar y set llawn o flaenoriaethau strategol nesaf ar gyfer adferiad y portffolio fel y nodwyd yn yr adroddiad, ynghyd â'r dadansoddiad risg a chamau gweithredu lliniaru ar gyfer y rhai presennol a'r rhai sydd wedi'u cynllunio; a
- (b) Bod rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor yn cael ei hail-lunio ar gyfer gweddill blwyddyn y Cyngor ar gyfer 2020/21, gyda chynllunio adferiad yn ganolbwynt iddi.

**8. STRATEGAETH ADFERIAD (PORTFFOLIO STRYD A CHLUDIANT)**

Rhoddodd Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant) gyflwyniad oedd yn rhoi cefndir ynglŷn â risgiau a nodwyd. Gyda'r Uwch Dîm Rheoli, roedden nhw wedi nodi 47 risg gwahanol ar draws Cyllid, Gweithlu, Asedau Eiddo, Llywodraethu/Cyfreithiol, Rheoliadau Allanol, TGCh a Systemau, Cyflenwi Gwasanaeth, Polisi Priffyrdd, Fflyd, Strategaeth Gwastraff a Pharcio a Gorfodi, ac roedd 2 o'r rhain wedi eu cau ond yn cael eu hadolygu'n wythnosol. Wrth symud i fisoedd y gaeaf roedd risgiau newydd yn dod i'r amlwg a byddent yn parhau i gael eu monitro.

Rhoddodd fwy o wybodaeth ynglŷn â'r meysydd penodol canlynol:-

Cyllid

ST09 - Marchnad ar gyfer ailwerthu deunydd eildro yn hynod anwadal. Adroddodd fod newid mawr yn y prisiau maen nhw'n eu derbyn am blastig, papur a gwydr ayyb ac yn anffodus mae'r rhan fwyaf ohonynt yn llithro gan osod pwysau sylweddol ar fusnesau ond yn creu problemau hefyd i staff sy'n ceisio dod o hyd i farchnadoedd parod ar gyfer y deunydd.

ST10a – Gwastraff cyffredinol y codi rhwng 10 - 20% yn rhanno oherwydd nifer y bobl sy'n gweithio o gartref, yn treulio mwy o amser yn y cartref a heb deithio ar wyliau gan arwain at gadw'r gwastraff yn yr ardal hon. Mae nifer y tunelli ar gynnydd sy'n achosi pwysau o ran ffi glwyd ychwanegol ond mwy o waith i staff hefyd wrth gasglu gwastraff o ochr y ffordd.

Gweithlu

ST12 – Gostyngiad yn nifer y gweithwyr a'r contractwyr rheng flaen i gyflawni gwasanaethau yn ddiogel oherwydd lefelau uwch o salwch.

ST17a – Cynnydd yn y perygl o ddiodef oherwydd iechyd a lles meddyliol, materion personol ac/neu deuluol.

Diolchodd y Cynghorydd Paul Shotton i'r Gwasanaethau Stryd am ddychwelyd i sefyllfa fwy arferol yn enwedig o ran torri gwair yn ei ardal ef. Rhoddodd wybod fod y Goruchwyliwr Dros Dro wedi bod mewn cysylltiad gydag Aelodau Cei Connah er mwyn cynnig yr ardaloedd oedd angen eu glanhau'n ddifrifol, yn debyg i'r un ddigwyddodd yn Shotton.

Rhoddodd y Cynghorydd Carolyn Thomas wybod am Ymgyrch Ailgylchu yr oedd Llywodraeth Cymru yn ei lansio, gan weithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol o'r enw ymgyrch 'Bydd Wych, Ailgylcha'. Ychwanegodd y byddai llawer o gyhoeddusrwydd ynglŷn â hyn er mwyn annog pobl i ailgylchu a chodi'r cyfraddau unwaith eto, fyddai hefyd yn atal gollwng sbwriel hefyd gobeithio.

Gofynnodd y Cadeirydd gwestiwn ynglŷn â'r ail argymhelliad. Holodd beth fyddai'n digwydd i bopeth arall fyddai wedi bod yn rhan o'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol. Rhoddodd Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd wybod fod aelod o'i dîm wedi bod yn nodi eitemau oedd yn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol o'r cyn Bwyllgorau Trosolwg ac Archwilio'r Amgylchedd a Chymuned a Menter, o ran eitemau parhaus fyddai'n cael eu bwydo i'r rhaglen gwaith i'r dyfodol ar gyfer y Pwyllgor. Byddai pwyslais ar eitemau adfer, ond byddai'r rhaglen gwaith i'r dyfodol hefyd yn cydnabod fod angen dod ag eitemau rheolaidd o flaen y Pwyllgor ac hefyd materion yn ymdrin â swyddogaethau rheolaethol.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr fod angen meddwl am y risgiau yr oedd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) a'r Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant) wedi tynnu sylw atynt gan eu bod yn rhan o'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol agos efallai, mewn ffordd na fyddai wedi digwydd o'r blaen. Hefyd, gan edrych ar y risgiau presennol, roedd angen edrych ar barhad busnes ar gyfer y gaeaf gan y gallai fod yn aeaf caled i ddod. Efallai y bydd yn rhaid i rai gwasanaethau gymryd cam yn ôl er mwyn cyflawni'n rhannol.

Rhoddodd wybod fod cyfarfodydd arbennig yn cael eu trefnu ar gyfer mis Tachwedd er mwyn ymdrin â'r gyllideb.

Cynigwyd yr argymhellion yn yr adroddiad gan y Cynghorydd Paul Shotton a'u heilio gan y Cynghorydd Chris Dolphin.

### **PENDERFYNWYD:**

- (a) Cytuno ar y set llawn o flaenoriaethau strategol nesaf ar gyfer adferiad y portffolio fel y nodwyd yn yr adroddiad, ynghyd â'r dadansoddiad risg a chamau gweithredu lliniaru ar gyfer y rhai presennol a'r rhai sydd wedi'u cynllunio; a
- (b) Bod rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor yn cael ei hail-lunio ar gyfer gweddill blwyddyn y Cyngor ar gyfer 2020/21, gyda chynllunio adferiad yn ganolbwynt iddi.

## **9. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL**

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 11.24am)

.....  
**Cadeirydd**